**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6364
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6364

Jane Hutt AS
Trefnydd a'r Prif Chwip

16 Mai 2024

Annwyl Jane

Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Diolch am ddod i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Cyllid ar 24 Ebrill, i drafod goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (y Bil).

Yn amodol ar y safbwyntiau a nodir isod, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Rhaglen Diwygio'r Senedd

Mae Rhaglen Diwygio'r Senedd Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Bil a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), y mae'r Pwyllgor eisoes wedi adrodd arno. Rydym yn nodi eich barn fod angen edrych ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y Bil hwn yng nghyd-destun y Bil Aelodau ac Etholiadau, oherwydd mae'n cael ei weld fel rhaglen ddiwygio'r Senedd yn ei chyfanrwydd. Rydym yn cydnabod y rhyngberthynas rhwng y darnau hyn o ddeddfwriaeth, a bod y costau sy'n deillio ohonynt yn gysylltiedig, os caiff y ddwy ohonynt eu pasio gan y Senedd.

At hynny, byddem yn croesawu cadarnhad y bydd unrhyw gostau a ysgwyddir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â diweddariadau i'r System Rheoli Etholiadol sy'n deillio o'r ddau Fil, yn cael eu had-dalu gan Lywodraeth Cymru.

## Cyfanswm costau'r Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai cyfanswm y gost o roi'r ddeddfwriaeth ar waith fydd £21,000, dros y cyfnod arfarnu wyth mlynedd. Yn ystod eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Biliau Diwygio ar 1 Mai, gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor fod y Comisiwn Etholiadol, ers cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, wedi nodi cost o tua £6,000 ar gyfer gwaith a wneir gan ei dîm deddfwriaeth newydd i baratoi ar gyfer gweithredu'r Bil sy'n cynnwys costau staff a chostau ar gyfer paratoi canllawiau. Rydym yn nodi bod y cynnydd yn gyfran sylweddol o gost derfynol y Bil. Rydym yn siomedig na wnaethoch hysbysu'r Pwyllgor hwn am y cynnydd yn yr amcangyfrif ac rydym yn disgwyl gweld manylion llawn mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, os yw'r Bil yn mynd rhagddo y tu hwnt i Gyfnod 1.

## Heriau cyfreithiol ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol

Dylai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol nodi'r amcangyfrifon gorau o gostau a manteision gweithredu Biliau ac felly nid yw gwybodaeth am gostau sy'n gysylltiedig â heriau cyfreithiol posibl sy'n deillio o Filiau yn cael ei chynnwys fel arfer. Fodd bynnag, dyma'r tro cyntaf i'r Llywydd gyhoeddi datganiad sy'n nodi, yn ei barn hi, na fyddai'r Bil "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd". O ystyried bod eich barn chi a barn y Llywydd ar gymhwysedd yn wahanol, mae hyn yn ei gwneud yn debygol iawn y bydd her yn cael ei chyflwyno i'r Goruchaf Lys ac felly bydd costau cyfreithiol ychwanegol yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Os bydd hyn yn digwydd, hoffai'r Pwyllgor gael ei hysbysu am y costau cysylltiedig.

## Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu rôl y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol gyda chost gylchol o £1,500 fesul etholiad. Os byddwch yn dod i'r casgliad, yn ogystal, bod angen dirprwy Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol, rydym yn disgwyl i'r costau hynny gael eu cynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, er ein bod yn cydnabod bod costau o'r fath yn debygol o fod yn fach iawn.

## Ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol

Rydym yn siomedig na fu unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol ynghylch costau cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Er y byddai costau ac arbedion posibl cyflwyno cwotâu yn amrywio rhwng pleidiau gwleidyddol, rydym yn credu y dylid gwneud rhagor o waith i asesu'r costau. Gellid cyflawni hyn drwy ymgynghori â Phanel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd a hefyd drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn y Senedd ar hyn o bryd.

Is-ddeddfwriaeth

Yn olaf, rydym yn disgwyl ichi ymrwymo i ddarparu cymaint o dryloywder â phosibl mewn perthynas â chostau'r Bil drwy gyhoeddi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn. Mae hwn yn argymhelliad yr ydym wedi'i wneud yn flaenorol mewn perthynas â nifer o Filiau yn ystod y Senedd, wrth inni geisio cael darlun llawn o'r costau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth sydd ger ein bron.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 11 Mehefin, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried eich ymateb cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a drefnwyd ar gyfer 18 Mehefin 2024.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd

Copïau at: Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.